**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ariannu Allanol

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 4 Hydref 2017 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| W Evans | R Francis-Davies | M Sherwood |
| M Thomas | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Rachel Evans | Prif Swyddog - Cefnogi Pobl, Gwasanaethau i Oedolion |
| Chris Francis | Swyddog Contractio Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Spencer Martin | Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol |
| Paul Relf | Rheolwr Cyllid Allanol |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |
| Elliott Williams | Rheolwr Cyllid Allanol |
| Gaynor Winsor | Cyfrifydd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child, D H Hopkins a/ac C E Lloyd

---

**15 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**16 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Panel Cyllid Allanol gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2017 fel cofnod cywir.

**17 Grant ar gyfer Ehangu Gwasanaethau ar Ffiniau Gofal 2017/18.**

Ystyriwyd adroddiad gan aelodau’r panel ar ddyrannu grant er mwyn ehangu gwasanaethau ar ymyl gofal 2017/18.

Mae'r grant eisoes wedi'i ddyrannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ac nid oedd angen i'r cyngor gyflwyno cais.  Bwriad y cyllid, a ryddhawyd o ganlyniad i gyllid ôl-ddilynol cyllideb mis Mawrth y Llywodraeth Brydeinig, oedd cefnogi awdurdodau lleol i fodloni galw cynyddol.

**Penderfynwyd** y byddai'r panel yn nodi goblygiadau'r adroddiad ac yn cymeradwyo derbyn y grant yn ôl-weithredol.

**18 Grantiau i Ddarparu Cefnogaeth Ychwanegol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal.**

Ystyriwyd adroddiad gan y panel ar ddyrannu'r grantiau canlynol i gefnogi'r sawl sy'n gadael gofal:

- Grantiau cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal i gael dyfodol disglair;
- Grant Dydd Gŵyl Dewi.

Dyrannwyd y grantiau hyn yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ac nid oedd angen i'r cyngor gyflwyno cais. Bwriad y cyllid, a ryddhawyd o ganlyniad i gyllid ôl-ddilynol cyllideb mis Mawrth y Llywodraeth Brydeinig, oedd cefnogi awdurdodau lleol i fodloni galw cynyddol.

Penderfynwyd y byddai'r panel yn nodi goblygiadau'r adroddiad ac yn cymeradwyo derbyn y grantiau'n ôl-weithredol.

**19 Grant i Gefnogi'r Ymagwedd Genedlaethol at Eiriolaeth Statudol.**

Ystyriwyd adroddiad gan y panel ynghylch dyrannu'r grant i Wasanaeth Eiriolaeth Bae'r Gorllewin 2017-18.

Mae'r grant eisoes wedi'i ddyrannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ac nid oedd angen i'r cyngor gyflwyno cais.

Bwriad y cyllid yw cefnogi rhoi Ymagwedd Genedlaethol at Eiriolaeth Statudol ar waith.

**Penderfynwyd** y byddai'r panel yn nodi goblygiadau'r adroddiad ac yn cymeradwyo derbyn y grant yn ôl-weithredol.

**20 Grant Gofal Seibiant Gofalwyr.**

Derbyniwyd adroddiad gan y panel ar ddyrannu'r Grant Gofal Seibiant i Ofalwyr 2017-18.

Mae'r grant eisoes wedi'i ddyrannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ac nid oedd angen i'r cyngor gyflwyno cais.

Bwriad y cyllid oedd galluogi awdurdodau lleol i gyflwyno gofal seibiant ychwanegol i ofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc) yn eu hawdurdod lleol, gan gynnwys:

- Gofal Dydd – gwasanaeth a ddarperir y tu allan i'r cartref heb unrhyw elfennau aros dros nos i'r gofalwr neu dderbynnydd y gofal
- Seibiant yn y cartref – gweithiwr gofal (â thal) yn dod i'r cartref teuluol i 'eistedd' gyda derbynnydd y gofal
- Seibiant mewn teulu cynnal – mae'r gofalwr a derbynnydd y gofal yn cymryd seibiant gyda'i gilydd wrth aros gyda theulu cynnal

- Seibiant sefydliadol/dros nos – yn galluogi seibiannau i ffwrdd o'r cartref teuluol i dderbynnydd y gofal am un noson neu fwy

**Penderfynwyd** y byddai'r panel yn nodi goblygiadau'r adroddiad ac yn cymeradwyo derbyn y grant yn ôl-weithredol.

## 21 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r panel wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodwyd ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y panel Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle roedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol, fel a nodwyd yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 22 Trosolwg o'r Ceisiadau Presennol a'r Rhai Sydd ar Ddod am Arian Ewropeaidd ac Allanol.

Ystyriwyd adroddiad gan y panel a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am geisiadau presennol a chynlluniedig am gyllid Ewropeaidd a cheisiadau eraill am gyllid allanol.

Roedd yr adroddiad yn ddiweddariad ar adroddiadau blaenorol ar gyllid Ewropeaidd ac Allanol i'r Panel Cyllido Allanol a oedd yn ceisio darparu:

- Diweddariad ar geisiadau am gyllid Ewropeaidd a chyllid allanol presennol ac sy'n agos at gael eu cymeradwyo;
- Hysbysiad cynnar o geisiadau a rhaglenni cyllid grant arfaethedig sydd ar y gweill.

**Penderfynwyd** nodi a chymeradwyo'r argymhellion fel a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.03 pm

**Cadeirydd**